

**Crynodeb o Fil**  
**Bil Is-ddeddfau Llywodraeth**  
**Leol (Cymru)**

Ionawr 2012

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



Y Gwasanaeth  
Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:  
**[www.cynulliadcymru.org/research](http://www.cynulliadcymru.org/research)**

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

**Y Gwasanaeth Ymchwil  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA**

E-bost: **[Research.Service@wales.gov.uk](mailto:Research.Service@wales.gov.uk)**

Twitter: **[@YmchwilCCC](https://twitter.com/YmchwilCCC)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Rhif ymholiad:** 12/0031

**Crynodeb o Fil**  
**Bil Is-ddeddfau Llywodraeth**  
**Leol (Cymru)**

Ionawr 2012

Rhys Iorwerth

Rhif dogfen: 12/001

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



Y Gwasanaeth  
Ymchwil



# Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	1
2.	Llinell amser.....	2
2.1.	Datblygiadau yn Lloegr.....	2
2.2.	Ymrwymiad gwreiddiol Llywodraeth Cymru.....	2
2.3.	Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru .....	3
2.4.	Rhaglen Lywodraethu .....	4
3.	Amcanion polisi.....	5
4.	Crynodeb o ddarpariaethau'r Bil .....	6
5.	Goblygiadau ariannol.....	7



# Crynodeb o Fil – Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru)

## 1. Cyflwyniad

**Dyddiad cyflwyno:** 28 Tachwedd 2011

**Aelod cyfrifol:** Carl Sargeant AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

**Pwyllgor y Cynulliad sy'n craffu ar Gam 1 y Bil:** Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

**Y terfyn amser ar gyfer adrodd ar Gam 1:** 30 Mawrth 2012

Mae gan awdurdodau lleol a chyryff penodol eraill bwerau dan ddeddfwriaeth sylfaenol i wneud is-ddeddfau. Gellir disgrifio is-ddeddfau fel cyfreithiau lleol sydd wedi'u cynllunio i ymdrin â materion lleol. Ar hyn o bryd, rhaid i is-ddeddfau a wneir yng Nghymru gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru cyn iddynt ddod i rym. Yn ogystal, rhaid i Lywodraeth Cymru gymeradwyo eu dirymu hefyd. Codir dirwyon am dorri is-ddeddfau, a chaiff y rhain eu gorfodi drwy'r llysoedd ynadon ar hyn o bryd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi mai bwriad *Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru)* yw symleiddio a gwella'r ffordd y defnyddir is-ddeddfau fel mecanwaith rheoleiddio ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Yn benodol, nod y Bil yw:

- dileu'r angen i Weinidogion Cymru gadarnhau is-ddeddfau penodol ar ôl i awdurdodau eu gwneud;
- ei gwneud yn angenrheidiol i awdurdodau ymgynghori'n lleol cyn gwneud yr is-ddeddfau hynny;
- darparu dull amgen dewisol o orfodi is-ddeddfau drwy hysbysiadau cosb benodedig;
- cryfhau'r darpariaethau deddfwriaethol presennol yng Nghymru ar gyfer gwneud, cadarnhau a gorfodi is-ddeddfau a gwmpaswyd cyn hyn gan *Ddeddf Llywodraeth Leol 1972*<sup>1</sup>.

---

<sup>1</sup> [Local Government Act 1972](#) (Pennod 70) [darllenwyd 5 Ionawr 2012]

## 2. Llinell amser

### 2.1. Datblygiadau yn Lloegr

Fis **Ebrill 2006**, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ar y pryd ddogfen drafod gan wahodd sylwadau ar faterion penodol yn ymwneud â'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud a gorfodi is-ddeddfau. Arweiniodd hyn at gynnwys darpariaethau yn *Neddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007*<sup>2</sup> sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau i bennu gweithdrefn newydd ar gyfer gwneud is-ddeddfau penodol, ac ar gyfer rhagnodi dosbarthiadau o is-ddeddfau y gellir eu gorfodi drwy hysbysiadau cosb benodedig. Fodd bynnag, dim ond i Loegr y byddai'r pŵer hwn i wneud rheoliadau'n berthnasol, oherwydd rhoddodd y Ddeddf gymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ymwneud â'r weithdrefn ar gyfer gwneud a gorfodi is-ddeddfau (gweler isod).

Fis **Awst 2008**, cyhoeddodd yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn Lloegr bapur ymgynghori wedi'i fwriadu i fod yn sail i'r rheoliadau y bwriadwyd eu gwneud yn Lloegr dan y Ddeddf.<sup>3</sup> Ymatebodd Llywodraeth y DU gyda chynigion ar gyfer rheoliadau fis **Hydref 2009** ond ni chafodd dim eu gwneud cyn etholiad cyffredinol 2010.

Fis **Awst 2010**, ailedrychodd Llywodraeth newydd y DU ar y mater a chyhoeddi diwygiadau arfaethedig lle y byddai cynghorau'n gallu creu is-ddeddfau penodol neu ddirymu hen rai heb orfod gofyn caniatâd y Llywodraeth. Yn hytrach na cheisio cymeradwyaeth gweinidogion, byddai'n ofynnol i gynghori ymgynghori â thrigolion lleol yn seiliedig ar asesiad o pam y dylid creu neu ganslo cyfraith. Canolbwyntiodd datganiad Llywodraeth y DU yn benodol ar adolygu a dirymu is-ddeddfau a oedd wedi yn hen ffasiwn.<sup>4</sup>

Mae dadansoddiad manylach o'r datblygiadau yn Lloegr yn nogfen llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, [\*Local Authority Byelaws\*](#). Ni chafwyd rhagor o ddatblygiadau, ond mae Llywodraeth y DU wedi dweud yn ddiweddar ei bod yn bwriadu symud ymlaen gyda'r cynigion maes o law.<sup>5</sup>

### 2.2. Ymrwymiad gwreiddiol Llywodraeth Cymru

Fis **Mawrth 2007**, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [\*Rhannu Cyfrifoldeb\*](#), sef ei datganiad polisi ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Roedd y ddogfen hon yn cynnwys ymrwymiad i "ystyried ac ymgynghori ynglŷn â newidiadau posibl i symleiddio'r broses ar gyfer gwneud is-ddeddfau llywodraeth leol yng Nghymru".

<sup>2</sup> [\*Local Government and Public Involvement in Health Act 2007\*](#) (Pennod 28) [darllenwyd 6 Ionwr 2012]

<sup>3</sup> Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, [\*Communities in control: real people, real power - The making and enforcement of byelaws\*](#), 2008 [darllenwyd 6 Ionwr 2012]

<sup>4</sup> Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, [\*Grant Shapps: Bypass Whitehall and scrap outdated byelaws\*](#), 31 Awst 2010 [mynediad 6 Ionawr 2012]

<sup>5</sup> HC Deb 27 Ebrill 2011 c459W



Yn wreiddiol, nododd Llywodraeth Cymru y byddai'n cyflawni'r ymrwymiad hwn erbyn mis **Mawrth 2008**.<sup>6</sup>

Fel y nodir uchod, roedd *Deddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007*<sup>7</sup> wedi rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i Lywodraeth Cymru ynghylch y weithdrefn ar gyfer gwneud is-ddeddfau, dod â nhw i rym a'u gorfodi.<sup>8</sup> Crëwyd y pŵer hwn ar **30 Rhagfyr 2007**.

### 2.3. *Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru*

Ni welwyd datblygiadau mawr yng Nghymru ar y materion hyn tan fis **Mehfin 2010**, pan gynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad er mwyn ceisio barn ar broses symlach ar gyfer gwneud, cadarnhau a gorfodi is-ddeddfau. Esboniodd y ddogfen ymgynghori:

Conglfaen symleiddio'r broses yw cael gwared ar y gofyniad am gadarnhad gan Weinidogion Cymru, dan rai amgylchiadau. Bydd hyn yn rhoi mwy o berchnogaeth i awdurdodau lleol dros yr holl broses, ond bydd hefyd yn golygu y bydd yn rhaid i'r asesiad o'r angen am is-ddeddf, yn ogystal â'r broses ddatblygu, fod yn fwy tryloyw a chynhwysol.<sup>9</sup>

Daeth yr ymgynghoriad i ben fis **Medi 2010**. Ymysg y cwestiynau a gynhwyswyd yn yr ymgynghoriad roedd y trefniadau ymgynghori cyn gwneud is-ddeddfau, rôl Gweinidogion Cymru yn y broses o gadarnhau is-ddeddfau, a dewisiadau amgen i orfodi is-ddeddfau drwy'r llysoedd ynadon (yn cynnwys cynnig i weithredu hysbysiadau cosb benodedig fel y ffurf newydd ar orfodi lle y bo'n briodol). Ymatebodd 11 o awdurdodau lleol a 35 o gynghorau cymuned a thref. Yn ogystal cafwyd ymateb ar ran tri Awdurdod y Parciau Cenedlaethol, ac un ymateb arall.

Dywedodd rhai awdurdodau lleol fod ganddynt drefniadau ymgynghori ar waith eisoes ar gyfer gwneud is-ddeddfau. O ran rôl Gweinidogion Cymru yn y broses o gadarnhau is-ddeddfau, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod y broses hon yn ychwanegu lefel weinyddol arall, yn achosi oedi ac nad oedd yn ychwanegu gwerth. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cytuno nad oedd angen cadw rôl Llywodraeth Cymru, a dywedodd un ymatebydd fod proses herio ar gael drwy'r llysoedd pa câi is-ddeddf ei gwneud a oedd y tu hwnt i bwerau awdurdod lleol. Ymysg yr eithriadau roedd is-ddeddfau a oedd yn diogelu safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig, is-ddeddfau amgylcheddol, is-ddeddfau'n ymwneud â phlant, ac is-ddeddfau'n ymwneud â materion dadleuol neu gymhleth eraill.

---

<sup>6</sup> Llywodraeth Cymru, *Rhannu Cyfrifoldeb: Datganiad Polisi ar Lywodraeth Leol*, Mawrth 2007, t61 [darllenwyd 6 Ionawr 2012]

<sup>7</sup> *Local Government and Public Involvement in Health Act 2007* (Pennod 28) [darllenwyd 6 Ionawr 2012]

<sup>8</sup> Gan fod Rhan 4 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* bellach mewn grym, gellir gweld y cymhwysedd deddfwriaethol ym mhwc 12 (llywodraeth leol) Atodlen 7 o *Ddeddf 2006*.

<sup>9</sup> Llywodraeth Cymru, *Dogfen ymgynghori ar is-ddeddfau awdurdodau lleol yng Nghymru - Gweithdrefnau ar gyfer gwneud is-ddeddfau, eu cadarnhau a'u gorfodi*, Mehefin 2010 [darllenwyd 6 Ionawr 2012]

Cafwyd cefnogaeth gref i orfodi is-ddeddfau drwy hysbysiadau cosb benodedig fel ychwanegiad at y camau a gymerir drwy'r llysoedd ynadon, yn hytrach nag i ddisodli hynny. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch yr angen am adnoddau ychwanegol er mwyn gorfodi hysbysiadau cosb benodedig yn effeithiol.

#### *2.4. Rhaglen Lywodraethu*

Fis **Medi 2011**, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei [\*Rhaglen Lywodraethu\*](#) ar gyfer 2011-2016. Nododd y Llywodraeth y byddai'n ceisio nodi "ffyrdd o symleiddio a lleihau cymhlethdodau wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, er enghraifft drwy'r *Bil Llywodraeth Leol (Is-ddeddfau) (Cymru)* arfaethedig".<sup>10</sup>

---

<sup>10</sup> Llywodraeth Cymru, [\*Rhaglen Lywodraethu\*](#), Medi 2011 [darllenwyd 6 Ionawr 2012]

### 3. Amcanion polisi

Yn adran 3 o femorandwm esboniadol<sup>11</sup> y Bil nodir bod y Bil yn seiliedig ar amcanion polisi canlynol Llywodraeth Cymru:

- Mae'r system bresennol o wneud, o gadarnhau ac o orfodi'r mwyafrif o is-ddeddfau yn rhy fiwrocraidd, yn hen ffasiwn ac yn feichus. Gan y gall is-ddeddfau fod yn ffordd effeithiol o fynd i'r afael â phroblemau lleol, mae angen y Bil hwn er mwyn sicrhau bod y gweithdrefnau sy'n ymwneud ag is-ddeddfau yn llai beichus.
- Llywodraeth leol sydd yn y sefyllfa orau i gymryd cyfrifoldeb dros wneud y mwyafrif o is-ddeddfau, heb fod angen arweiniad gan Weinidogion Cymru. Mewn achosion o'r fath, bydd ymgynghoriad lleol yn cael ei gynnal sy'n golygu bod proses graffu Llywodraeth Cymru yn cael ei disodli gan broses graffu leol. Fodd bynnag, gall rhai is-ddeddfau fod yn gymhleth, yn ddadleuol neu gael effaith ehangach nag effaith leol (fel is-ddeddfau'n gysylltiedig â chyflogi plant neu'r amgylchedd). Mewn achosion o'r fath, cedwir rôl gadarnhau Gweinidogion Cymru.
- Nid yw gorfodi is-ddeddfau wedi bod yn effeithiol iawn yn y gorffennol. Bydd hysbysiadau cosb benodedig yn weithdrefn fwy effeithlon ac effeithiol na champau drwy'r llysoedd ynadon i orfodi is-ddeddfau. Fodd bynnag, bydd hyn yn ddewisol, gan y bydd y weithdrefn llysoedd ynadon yn parhau i fod ar gael.
- Mae nifer o awdurdodau lleol yn cael eu hatal rhag gwneud is-ddeddfau a rhag diweddarau is-ddeddfau hen ffasiwn oherwydd yr amser anghymesur y gall ei gymryd i gael cadarnhad gan Weinidogion Cymru. Gallai hyn olygu fod materion nad ydynt wedi'u rheoleiddio'n yn ymwneud ag iechyd a diogelwch heb eu datrys, a dylai'r Bil newid hynny drwy ei gwneud yn symlach i gyflwyno is-ddeddfau yn y dyfodol.
- Bydd awdurdodau deddfu yn elwa ar y Bil hwn gan ei fod yn cyflwyno dull llai biwrocraidd a mwy cymesur o wneud is-ddeddfau penodol a'u gorfodi. Bydd cymunedau'n elwa ar gamau cyflymach i fynd i'r afael â materion lleol ac yn sgil gwell ymgynghori cyn i benderfyniadau gael eu gwneud. Bydd Llywodraeth Cymru'n elwa yn sgil llai o waith gweinyddol yn gysylltiedig â chadarnhau is-ddeddfau.

---

<sup>11</sup> Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Esboniadol Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol \(Cymru\)](#), 28 Tachwedd 2011, Adran 3 [darllenwyd 6 Ionawr 2012]

#### 4. Crynodeb o ddarpariaethau'r Bil

Gellir crynhoi prif ddarpariaethau'r Bil fel a ganlyn:

- Mae'n ailddatgan pŵer awdurdodau lleol i wneud is-ddeddfau ar gyfer rheolaeth dda a llywodraeth ac i atal niwsansau (Adran 2).
- Mae'n ailddatgan pwerau awdurdodau deddfu i ddirymu eu his-ddeddfau eu hunain lle nad oes pŵer arall i wneud hynny (Adran 4).
- Mae'n ailddatgan pwerau Gweinidogion Cymru i ddirymu is-ddeddfau sy'n ymddangos fel eu bod wedi dod yn anarferedig (Adran 5).
- Mae'n manylu ar weithdrefn amgen ar gyfer gwneud is-ddeddfau penodol na fydd angen cadarnhad gan Weinidogion Cymru ar eu cyfer (Adran 6).
- Mae'n ailddatgan ac yn addasu'r weithdrefn ar gyfer gwneud yr is-ddeddfau hynny y mae angen cadarnhad gan Weinidogion Cymru ar eu cyfer (Adran 7).
- Mae'n creu system hysbysiadau cosb benodedig fel dull amgen o orfodi is-ddeddfau penodol (gan bennu'r fframwaith gorfodi drwy gyfrwng dirwyon ac ati) (Adran 12).
- Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r rhestrau o is-ddeddfau penodol nad oes angen cadarnhad gweinidogol ar eu cyfer ac a allai fod yn destun hysbysiadau cosb benodedig fel y rhestrir yn Atodlen 1 (Adrannau 9 ac 16).  
Yn Rhan 1 o Atodlen 1 y Bil rhestrir pynciau'r is-ddeddfau na fydd angen cadarnhad gweinidogol ar eu cyfer. Yn rhan 2 o Atodlen 1 rhestrir y pynciau y gellir rhoi hysbysiadau cosb benodedig mewn perthynas â hwy.
- Mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ynghylch y gweithdrefnau sy'n ymwneud â gwneud a gorfodi is-ddeddfau (Adran 18).

## 5. Goblygiadau ariannol

Yn y memorandwm esboniadol, mae Llywodraeth Cymru yn asesu goblygiadau cyflwyno'r Bil o ran ei gostau a'i fanteision.<sup>12</sup> Honna:

- Na ddisgwylir newid yn nifer yr is-ddeddfau a gyflwynir bob blwyddyn, er gwaetha'r ffaith y disgwylir i'r system newydd o gyflwyno'r is-ddeddfau hynny fod yn llai beichus.
- Bydd costau pontio 'bach' ar gyfer Llywodraeth Cymru oherwydd yr angen i gyflwyno canllawiau statudol, ond mae hyn yn angenrheidiol oherwydd bod elfen o graffu yn cael ei cholli heb gadarnhad gweinidogol. Bydd arbedion hefyd o ran adnoddau i Lywodraeth Cymru yn sgil dileu'r broses gadarnhau.
- Bydd gofyniad statudol ar awdurdodau lleol i ymgynghori cyn gwneud is-ddeddfau penodol, a bydd cost yn gysylltiedig â hyn. Fodd bynnag, y cyfan a wneir fydd codeiddio arferion da sy'n golygu mai bach fydd yr effaith.
- Bydd y system hysbysiadau cosb benodedig yn golygu y bydd angen i awdurdodau lleol roi systemau ar waith i gasglu dirwyon. Bydd costau'n gysylltiedig â hyn ond bydd yr effaith yn fach gan mai opsiwn yn unig yw hyn yn hytrach na dyletswydd benodol. Yn ogystal, mae gan lawer o awdurdodau lleol drefniadau o'r fath ar waith dan ddeddfwriaeth amgylcheddol. Mae hysbysiadau cosb benodedig yn dileu'r baich ar awdurdodau lleol o orfod paratoi deunydd ar gyfer erlyniadau hefyd, a byddai'n rhydaud amser y llysoedd ynadon.

---

<sup>12</sup> Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Esboniadol i'r Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol \(Cymru\)](#), 28 Tachwedd 2011, Adran 8 [darllenwyd 6 Ionawr 2012]